YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

## Tymor yr Haf 2026


## Dosbarth y Morlo

# Bant â ni i gynllunio!

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw ysgogi'r dysgwyr i ymholi a darganfod, i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, wrth ddysgu am gynefin y goedwig, yng Nghymru ac mewn ardal arall o'r byd. Bydd y dysgwyr yn dod i werthfawrogi a sylwi ar amrywiaeth pethau byw ac i ddatblygu corff o wybodaeth gan ddeall bod angen amodau penodol ar bethau byw i oroesi. Hyderwn y byddant yn medru cyfathrebu'n effeithiol gan fynegi eu syniadau trwy wahanol gyfryngau. Bwriadwn hefyd arwain y dysgwyr tuag at wneud penderfyniadau egwyddorol a gwybodus trwy ddeall effaith bodau dynol ar y byd naturiol gan ennyn ynddynt y teimlad o gyfrifoldeb ac ymrwymiad i sicrhau cynaladwyedd y blaned.

Rydw i eisiau dysgu am anifeiliaid y goedwig.

Leo




Pa blanhigion sy'n tyfu mewn coedwig?

Lowen

Ble mae llwynogod yn byw? A beth mae nhw'n bwyta?

Nell

Rydw i eisiau chwilio am atebion ar y we.

Iris

Sut mae adar yn creu nyth?

Meave

Hoffwn fynd i'r goedwig i weld beth sy'n cuddio!

Pawb

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2026

## Dosbarth y Morlo

## Thema'r tymor yw: Beth sy'n cuddio'n y coed?

...lau ar gyfer y tymor!

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

**Y Dyniaethau**

- Dysgu am gynefin y goedwig yng Nghymru a beth sy'n byw ac yn tyfu yno.
- Cymharu nodweddion coedwig yng Nghymru a choedwig law.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith pobl ar y byd naturiol.
- Datblygu ymwybyddiaeth o sut allwn ofalu am bethau byw ac am yr amgylchedd.
- Deall beth yw 'Masnach Deg' a bod ein gweithredoedd yn cael effaith ar gymunedau ac ar yr amgylchedd.
- Gwerthfawrogi harddwch a rhyfeddod y byd naturiol a mwynhau darllen stori draddodiadol Fwslemaidd 'Yr Adar Bach.'

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Dysgu caneuon newydd yn ymwneud a'r uned ddysgu a mwynhau eu perfformio.
- Astudio ac efelychu gwaith yr arlunydd Henri Rousseau.

**Iechyd a Lles**

- Datblygu sgiliau trin pêl.
- Datblygu sgiliau athletau a mwynhau paratoi tuag at y mabolgampau.
- Mwynhau gweithio fel aelod o dîm.
- Ystyried sut mae ein penderfyniadau yn cael effaith ar eraill nawr ac yn y dyfodol.
- Mwynhau gweithio yn yr awyr agored ac ystyried effaith hyn ar ein lles meddyliol.
- Trafod ein hemosiynau.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Mwynhau arsylwi, ymholi a gofyn cwestiynau ynglŷn â chynefin y goedwig.
Deall y gall ein gweithredoedd gael effaith ar yr amgylchedd a phethau byw.
Mwynhau archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a chylchoedd bywyd.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Cuddfan y Creaduriaid'
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys **cerdyn post, cyflwyno gwybodaeth ffeithiol ac ysgrifennu'n greadigol**.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Ymweliadau/Profiadau**

Ymweliadau â Pharc Singleton
Ymweliad a Plantasia i ddysgu am y goedwig law.
(dyddiad i'w gadarnhau)

..., tynnu, lluosi a rhannu.

...pen.

...d yr amser, defnyddio arian a

...ifennu a threfnu rhifau.

Datblygu sgiliau trin a chyflwyno data.